# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd A R Berrow**

**Ward: Bryntirion, Trelales, Merthyr Mawr a Broadlands**

**Plaid: Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn **2024.** Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Trelales, Merthyr Mawr, Bryntirion a Broadlands** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y pwyllgorau yr wyf yn eistedd arnynt drwy ddilyn y ddolen hon: Y Cynghorydd A R Berrow

Rwyf wedi mynychu 40 o gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol y cyngor ar-lein a/neu wyneb yn wyneb.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu dros 21 o sesiynau hyfforddi a 14 o sesiynau briffio, sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward. Rwyf wedi parhau i ymgymryd â modiwlau hyfforddi ar-lein pan fyddant ar gael.

Rwyf wedi codi 71 o faterion yn ffurfiol drwy'r system atgyfeirio gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill sy'n deillio o etholwyr lleol a materion yr wyf wedi'u nodi. Mae hyn yn cynnwys tyllau yn y ffyrdd, coed, palmentydd, marciau ffordd, parcio ac ati. Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys digartrefedd.

Rwy'n aelod etholedig o Gyngor Cymuned Trelales ac wedi mynychu sawl cyfarfod ar y cyd ag aelodau a swyddogion y ddau gyngor.

Rwyf bellach wedi dod yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Trelales ac wedi mynychu sawl sesiwn hyfforddi ar-lein i gefnogi'r rôl hon.

**Gweithgareddau Etholaethol**

Mae Cyngor Cymuned Trelales yn rheoli dau adeilad cymunedol. Ym Mryntirion rydym yn cynnal Pantri yr wyf yn ymwneud yn fawr ag ef. Mae wedi dod yn hyb cynnes yn ddiweddar hefyd ac rwy'n mynychu pryd bynnag y bo modd.

Mae amrywiaeth o sefydliadau'n defnyddio'r ddau adeilad ac rwy'n cyfarfod â'r rhain a'r defnyddwyr yn rheolaidd.

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd am y cae chwarae ym Mryntirion a'r holl feysydd chwarae yn yr etholaeth, mae'r gwaith hwn yn parhau.

Mae gan Gyngor Cymuned Trelales sawl prosiect y mae'n ymwneud â nhw ar hyn o bryd gan gynnwys gwell darpariaeth ar gyfer meinciau, biniau sbwriel ychwanegol a chynhwysyddion blodau yn y gymuned.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n rhan o'r pwyllgor lleol sy'n trefnu'r Diwrnod Hwyl a gynhelir yn Broadlands bob blwyddyn ar gyfer y gymuned.

Rwyf hefyd yn ymwneud â'r Arddangosfa Tân Gwyllt flynyddol ym Mryntirion.

Rwy'n eistedd ar Ymddiriedolaeth Blandy yn Nhrelales.

Rwy'n cefnogi holl swyddogaethau'r gymuned leol os ydw i'n rhydd i wneud hynny.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n aelod gweithgar o sawl sefydliad elusennol lleol y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio o fewn y gymuned rwy'n ei chynrychioli.

Rydym yn gweithio'n galed i godi arian a'i wario'n lleol, eleni o fewn ysgolion yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Rydym wedi bod yn brysur yn rhoi a phlannu coed mewn ysgolion a pharciau lleol fel rhan o fenter Canopi Gwyrdd y Frenhines.

**Y Cynghorydd A R Berrow** **Dyddiad: 03 Mehefin 2024**